**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi.
Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth

18 Ionawr 2024

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Annwyl Vaughan a Dawn,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Iau, 11 Ionawr 2024 i roi tystiolaeth fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Hoffai'r Pwyllgor fynd ar drywydd rhai o'r materion a drafodwyd, a byddai'n ddiolchgar o gael y wybodaeth ychwanegol a amlinellir isod.

### Blaenoriaethu gwariant i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol

Fel Pwyllgor, rydym yn cydnabod y penderfyniadau eithriadol o anodd y mae'n rhaid i chi eu gwneud ynghylch cyllideb y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, hoffem wybod pam nad ydych yn gwneud yr angen i fynd i'r afael â risgiau presennol i'r casgliadau cenedlaethol yn fwy o flaenoriaeth na rhai o'ch ymrwymiadau gwariant eraill. Hoffem ofyn pa ystyriaeth yr ydych wedi ei rhoi i oedi gwariant ar ymrwymiadau eraill, megis Amgueddfa'r Gogledd, yn hytrach na gwarchod yr eitemau gwerthfawr sydd eisoes yn y casgliad cenedlaethol.

### Llythyrau Cylch Gwaith a Strategaeth Ddiwylliant

Dywedasoch wrthym y bydd y Strategaeth Ddiwylliant hirddisgwyliedig yn cael ei chyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn. Hoffem wybod pa newidiadau yr ydych yn eu gwneud i'r strategaeth yn wyneb y cyllidebau llai, a sut y mae'r hyn yr ydych yn ei ddisgwyl gan y cyrff hyd braich wedi newid mewn perthynas â'r strategaeth.

**Dileu swyddi mewn cyrff hyd braich**

Hoffem gael amlinelliad o'r trafodaethau yr ydych wedi'u cael â chyrff hyd braich sy'n cael eu hariannu gan eich adran ynghylch unrhyw swyddi y byddent efallai'n gorfod eu dileu. Rydym yn gofyn i'ch ymateb gynnwys y cymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, y gallwch ei ddarparu yn y flwyddyn ariannol nesaf i'w cynorthwyo yn hyn o beth.

**Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol**

Nodwn eich bod wedi cadarnhau y byddwch yn gwneud penderfyniad ynghylch y safle angor erbyn diwedd mis Mawrth 2024. O gofio bod yr amser paratoi ar gyfer y prosiect hwn eisoes wedi bod yn hir, mae gennym bryder y gallai unrhyw oedi pellach wrth wneud penderfyniadau ynghylch y safle angor gynnig y gwaethaf o ddau fyd, gan y gallai arwain at stasis. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig i benderfyniadau gael eu gwneud cyn gynted ag y bo modd, a byddem yn croesawu sicrwydd pellach gennych na fydd unrhyw oedi yn yr amserlen.

**Ffioedd mynediad i atyniadau sydd yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd**

Hoffem gael amlinelliad o unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynghylch cyflwyno ffioedd mynediad i atyniadau sydd yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd. Rydym yn gofyn i'ch ymateb gynnwys manylion unrhyw fodelau yr ydych wedi'u defnyddio i lywio trafodaethau o'r fath (hynny yw, yr hyn a ddysgwyd o fodelau eraill neu enghreifftiau mewn mannau eraill, ac ati).

Gan fod y cyfnod craffu ar gyfer y Gyllideb Ddrafft wedi'i gwtogi, byddem yn gofyn am ymateb erbyn 26 Ionawr 2024 fan bellaf.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.